

Polisi Gwrth-dwyll ac Arferion Llwgr

Mehefin 2025

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Amcanion y strategaeth	2
Mathau o dwyll a drafodir yn y strategaeth hon	2
Diffiniadau.....	3
I bwy y mae'r strategaeth hon yn berthnasol	3
Swyddogion Cyfrifol	4
Egwyddorion sy'n sail i'r strategaeth hon	4
Rheoli Twyll	5
Gwrthannog: Ymwreiddio diwylliant o wrthannog twyll	5
Atal: Mesurau atal twyll	5
Canfod: Canfod ac ymchwilio i dwyll, ac adrodd amdano	8
Gwybodaeth bellach yn gysylltiedig â Sgamiau Pensiwn.....	9
Proses Adolygu	9
Rhagor o wybodaeth	9

Cyflwyniad

Dyma'r Strategaeth Gwrth-dwyll ac Arferion Llwgr ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu:

- ein hymrwymiad i atal a chanfod twyll
- ein polisi dim goddefgarwch tuag at weithredoedd twyll a'n
- hymateb i dwyll

Mae'n ymdrin yn bennaf â sefyllfaoedd lle ceir risg i'r Gronfa o weithgarwch twyllodrus yn gysylltiedig â'i data neu ei hasedau. Fodd bynnag, er bod gan aelodau gyfrifoldeb i ddiogelu eu hunain rhag twyll, mae gan yr Awdurdod Gweinyddu rôl i'w chwarae o ran sicrhau bod ei weithdrefnau a'i reolaethau'n cadw at ddeddfwriaeth, canllawiau ac arfer gorau perthnasol i ddiogelu ei aelodau a rhanddeiliaid rhag gweithgarwch twyllodrus yn gysylltiedig â'u buddion pensiwn. Felly mae'r strategaeth hon hefyd yn trafod sefyllfaoedd lle mae aelodau'r Gronfa mewn perygl o gael eu twyllo.

Amcanion y strategaeth

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweinyddu Cronfa Bensiwn Dyfed ar ran ei rhanddeiliaid sy'n cynnwys:

- tua 55,000 o aelodau cyfredol a chyn-aelodau'r Gronfa, a'u dibynyddion
- Dros 50 o gyflogwyr yn ardaloedd Cyngor Sir Caerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro

Mathau o dwyll a drafodir yn y strategaeth hon

Mae'r strategaeth hon yn trafod y mathau canlynol o dwyll (posibl):

- Twyll taliadau (h.y. gwneud taliad i'r unigolyn anghywir neu sefydlu cofnod ffug)
- Gordaliadau pensiwn y nodir eu bod yn dwyllodrus
- Dynwared rhywun arall
- Twyll derbynebaw (mae arian sy'n dod i mewn yn cael ei ddwyn neu gofnodion o symiau sy'n ddyledus yn cael eu haddasu)
- Sgamiau pensiwn yn erbyn aelodau
- Mynediad heb awdurdod i gyfrif banc y Gronfa
- Llwgwrwbrwyo a chydgyllwynio
- Gwyngalchu arian

Mae rhagor o fanylion am y mesurau lliniaru sydd ar waith ar gyfer y Gronfa i atal twyll wedi'u cynnwys yn yr adran Rheoli Twyll.

Diffiniadau

Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar y diffiniadau canlynol:

Twyll: lle bydd unigolyn wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, i sicrhau enillion iddo ef ei hun, neu i unigolyn arall, neu i achosi colled i unigolyn arall, neu achosi risg o golled i unigolyn arall.

Mae Deddf Twyll 2006 (legislation.gov.uk) yn cyfeirio at un drosedd o dwyll y gellir ei chyflawni mewn tair ffordd ar wahân:

- Twyll drwy ymhoniad anwir;
- Twyll drwy fethu â datgelu gwybodaeth lle bo dyletswydd gyfreithiol i wneud hynny; a
- Thwyll drwy gamddefnyddio statws.

Arferion llwgr: lle bydd unigolyn wedi cael mantais drwy ddull sy'n anghyfreithlon neu'n anfoesol ac/neu'n anghyson â'i gyfrifoldebau tuag at yr Awdurdod sy'n gweinyddu neu tuag at hawliau eraill. Mae enghreifftiau'n cynnwys llwgrwobrwyo er mantais ariannol neu fantais arall gyda'r bwriad o ysgogi neu wobrwyo perfformiad amhriodol a cheisio dylanwadu ar eraill drwy gynnig, rhoi, ceisio neu dderbyn cymhelliad neu wobwr.

Llwgrwobrwyo: rhoi neu dderbyn mantais ariannol neu fantais arall mewn cysylltiad â "chyflawniad amhriodol" swydd o ymddiriedaeth, neu swyddogaeth y disgwylir iddi gael ei chyflawni'n ddi-duedd neu'n ddi-dwyll, fel y diffinnir yn Neddf Llwgrwobrwyo 2010.

Gwyngalchu Arian: trin neu feddu ar eiddo troseddol, gan gynnwys meddu ar enillion ei drosedd ei hun, a hwyluso unrhyw ymdriniaeth â, neu feddiant ar eiddo troseddol, fel y'i diffinnir yn Neddf Enillion Troseddau 2002.

Wrth gyfeirio at dwyll yn y strategaeth hon, lle bo'n briodol, dylid dehongli bod hynny'n cynnwys arferion llwgr, llwgrwobrwyo a gwyngalchu arian, sydd yn rhyng-gysylltiedig yn nhyb y Gronfa.

I bwy y mae'r strategaeth hon yn berthnasol

Mae'r strategaeth yn berthnasol i:

- Bob aelod a chyn-aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed a'u dibynyddion.
- Swyddogion y Gronfa
- Cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa

- Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed ("y Pwyllgor")
- Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol
- Sefydliadau proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau i'r Gronfa (e.e., Ceidwad, rheolwyr y gronfa) a
- Chynghorwyr proffesiynol y Gronfa.

Swyddogion Cyfrifol

Mae'r Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151 ar gyfer y Gronfa) yn gyfrifol am oruchwylio trefniadau'r Cyngor ar gyfer atal a chanfod twyll ac mae ganddo gyfrifoldeb i sicrhau bod swyddogaeth archwilio fewnol effeithiol yn cael hariannu a'i chynnal. Caiff cyfrifoldebau pellach yn gysylltiedig ag atal, canfod ac ymateb i dwyll wedyn eu dirprwyo i'r Rheolwr Pensiynau yng Nghronfa Bensiwn Dyfed.

Pwyllgor y Gronfa Bensiwn sydd yn bennaf gyfrifol am reoli Cronfa Bensiwn Dyfed Fodd bynnag, y Cyfarwyddwr Cyllid sy'n gyfrifol am sicrhau bod gofynion y strategaeth hon yn cael eu bodloni. Rheolwr Pensiynau Cronfa Bensiwn Dyfed sydd hefyd yn gyfrifol am arfer unrhyw ddoethineb neu wneud unrhyw benderfyniadau angenrheidiol o dan y strategaeth hon, gan dderbyn cyngor cyfreithiol arbenigol lle bo'n briodol, oni ddarperir fel arall ar gyfer hynny yn y strategaeth hon.

Egwyddorion sy'n sail i'r strategaeth hon

Mae'r dull a fabwysiadwyd gan y Gronfa yn cynnwys proses tri cham fel a ganlyn:

- Gwrthannog: drwy gael diwylliant o fewn y Gronfa sy'n atal pobl rhag cyflawni twyll
- Atal: drwy gael mesurau ar waith er mwyn helpu i atal twyll rhag digwydd
- Canfod: drwy gael mesurau ar waith i ganfod twyll, os yw'n digwydd

Ceir manylion pellach am y camau allweddol hyn yn yr adran ar Reoli Twyll isod.

Mae'r strategaeth hon hefyd yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau CIPFA ar *Managing the risk of fraud and corruption* sy'n amlinellu pum elfen allweddol y dylai sefydliadau gadw atynt er mwyn osgoi twyll, fel a ganlyn:

- Cydnabod cyfrifoldeb y corff llywodraethu dros wrthweithio twyll ac Arferion Llwgr
- Nodi'r risgiau o dwyll ac arferion llwgr
- Datblygu strategaeth gwrth-dwyll ac arferion llwgr briodol
- Darparu adnoddau i weithredu'r strategaeth
- Gweithredu mewn ymateb i dwyll ac arferion llwgr

Rheoli Twyll

Gwrthannog: Ymwreiddio diwylliant o wrthannog twyll

Mae'r Gronfa yn mabwysiadu dull sy'n gyson â strategaeth ehangach Cyngor Sir Caerfyrddin sydd:

- yn cyhoeddi ei fesurau gwrth-dwyll drwy ddefnyddio pob dull sydd ar gael
- yn anelu i orfodi/gynyddu ymwybyddiaeth o'r ffaith bod twyll ac arferion llwgr yn droseddau difrifol drwy'r wybodaeth hon a gyhoeddir, ynghyd â gweithredu a chyhoeddi ei Strategaeth Gwrth-dwyll ac Arferion Llwgr.
- yn cydnabod y gellid bod angen cymryd camau disgyblu, yn unol â [Strategaeth Gwrth-dwyll ac Arferion Llwgr](#), os oes digon o dystiolaeth o ymwneud â gweithgareddau twyllodrus.

Gall aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ac aelodau'r Bwrdd Pensiwn dderbyn adroddiadau ar unrhyw weithgareddau twyllodrus sy'n gysylltiedig â'r Gronfa fel rhan o brosesau rheoli risg y Gronfa. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw ymchwiliadau i honiadau o dwyll neu afreoleidd-dra ynghyd â chamau ataliol a gymerir i leihau'r siawns y bydd hynny'n digwydd eto, fel bo'n briodol.

Caiff twyll a phwysigrwydd gwrthannog gweithgarwch twyllodrus neu gysylltiedig hefyd ei ystyried fel bo'n briodol mewn digwyddiadau hyfforddi Pwyllgor, Bwrdd a swyddogion.

Atal: Mesurau atal twyll

Mae holl swyddogion y Gronfa yn gyfrifol am helpu i atal twyll, arferion llwgr a gweithgarwch troseddol cysylltiedig. Bydd y Rheolwr Pensiynau yn sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei gynnal i holl swyddogion y Gronfa, a bod lefelau digonol o reolaethau mewnol yn cael eu cynnal o fewn systemau a gweithdrefnau'r Gronfa.

Mae mesurau atal twyll y Gronfa yn cynnwys y canlynol:

1. Mesurau i leihau'r risg y bydd taliadau pensiwn yn parhau ar ôl i aelod farw, drwy fethiant bwriadol i hysbysu'r Gronfa.
 - a. Cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI), ymarfer a gynhelir bob dwy flynedd gan swyddfa Archwilio Cymru sy'n cymharu data'r Gronfa ar bensiynwyr ac aelodau gohiriedig â chronfa ddata'r Adran Gwaith a Phensiynau o'r ymadawedig ac yn tynnu sylw at barau i ymchwilio iddynt er mwyn canfod (ac atal drwy hynny) gordaliadau posibl i bensiynwyr Cronfa'r DU.
 - b. Cymryd rhan yng ngwasanaeth *Dweud Wrthym Unwaith* y Llywodraeth. Mae'r gwasanaeth hwn yn caniatáu i unigolion roi gwybod am farwolaeth i'r rhan

fwyaf o sefydliadau'r llywodraeth ar un tro, ac yn lleihau'r risg na fydd y Gronfa yn cael gwybod am farwolaeth un o'i haelodau.

- c. Sgrinio marwolaethau'n wythnosol mewn perthynas â phensiynwyr y DU, a gynhelir gan ddarparwydd sgrinio marwolaethau penodedig y Gronfa.
 - d. Gwiriadau bodolaeth blynyddol yn gysylltiedig â phensiynwyr y Gronfa sy'n byw dramor, drwy ddefnyddio dulliau dilysu biometrig.
2. Adolygiadau rheolaidd o bensiynau afiechyd haen 3 sy'n cael eu talu i leihau'r risg y gwneir taliad anghywir i aelodau sydd mewn cyflogaeth â thâl.
 3. Adolygiadau blynyddol o bensiynau plant sy'n cael eu talu i sefydlu statws addysg neu analluogrwydd fel bo'n briodol, ac fel sy'n ofynnol yn rheoliadau'r cynllun, i benderfynu a yw'r plant yn parhau i fod yn gymwys i gael taliad a lleihau'r risg o daliadau anghywir.
 4. Sicrhau bod mesurau diogelwch priodol ar waith ar gyfer cyfleusterau hunanwasanaeth lle gall aelodau newid rhai o'u manylion pensiwn ar-lein.
 5. Ymchwilio i bost a ddychwelwyd (gan gynnwys slipiau cyflog pensiynwyr) sy'n awgrymu nad yw'r aelod yn byw yn y cyfeiriad a ddelir gan y Gronfa mwyach, er mwyn atal rhagor o wybodaeth rhag cael ei hanfon i'r cyfeiriad hwnnw, a allai arwain at weithgarwch twyllodrus. Atgoffa aelodau'n weithredol i newid manylion eu cyfeiriad, gan ddefnyddio data cyn symud i adnabod aelodau a allai fod yn symud.
 6. Ymchwilio i daliadau pensiwn a ddychwelwyd gan fanciau a chymdeithasau adeiladu, er mwyn diogelu arian y Gronfa ac amlygu sefyllfaoedd lle nad yw'r Gronfa o bosib wedi cael gwybod am farwolaeth pensiynwr.
 7. Sicrhau mai dim ond gan lofnodwyr awdurdodedig ar restr lofnodwyr awdurdodedig cyflogwyr y Gronfa y derbynnir data cyflog a data eraill sy'n effeithio ar fuddion pensiwn (ac na all cysylltiadau'r cyflogwr gyflwyno data drostynt eu hunain). Cynhelir gwiriadau dilysu data hefyd o fewn goddefiant penodedig ac yn unol â gweithdrefnau mewnol i atal cyflwyno data a allai chwyddo buddion aelod yn dwyllodrus.
 8. Sicrhau bod diwydrwydd dyladwy priodol yn cael ei gyflawni wrth ddelio â chyrrff derbyn newydd a'u cynefino, i leihau'r risg o ddefnyddio'r Gronfa i wyngalchu arian neu i ddibenion twyllodrus eraill.
 9. Sicrhau bod cyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr yn cael eu cysoni bob mis yn unol ag amserlenni statudol ac ymchwilio i unrhyw anghysondebau rhwng taliadau, yr hysbysiad talu cysylltiedig a data a gyflwynir gan yr aelodau, i leihau'r risg na fydd cyfraniadau'n cael eu talu'n llawn i'r Gronfa.
 10. Sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu gwahanu a chyfyngiadau ar fynediad i'r system fel na all unigolion wneud cais am, ac awdurdodi, yr un taliadau.
 11. Sicrhau bod yr holl incwm nad yw'n gyfraniadau a dderbynnir gan y Gronfa, fel taliadau trosglwyddo i mewn gan drydydd partïon a thaliadau gan aelodau i brynu buddion ychwanegol, yn cael ei wirio'n briodol a bod rheolaethau priodol ar waith i leihau'r risg y bydd y Gronfa'n cael ei defnyddio i ddibenion gwyngalchu arian.

Mae hyn yn cynnwys cysoniadau chwarterol rhwng y system gweinyddu pensiynau a'r llyfr cyfrifon i sicrhau yr holl incwm yn cael ei godio'n gywir.

12. Rhoi gweithdrefnau cadarn ar waith i newid manylion cyfrif banc pensiynwyr/dibynyddion pan geir cais am hynny mewn ysgrifen, neu drwy'r hunanwasanaeth ar-lein. Polisi'r Gronfa yw talu pensiynau i gyfrifon banc yn enw'r pensiynwr yn unig.
13. Sicrhau bod prosesau mewnol yn atal swyddogion pensiynau rhag diwygio eu cofnod pensiwn eu hunain a chyfyngu ar swyddogaethau i ddiwygio cofnodion eu priod/partner/rhieni/brawd neu chwaer/plentyn er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o dwyll ac arferion llwgr mewnol. Gall system feddalwedd gweinyddu pensiynau'r Gronfa nodi pob newid/manylyn a gaiff ei ddileu ar gofnodion yr aelodau ac mae'r risg o ganfod twyll yn allweddol er mwyn gwrthannog hynny.
14. Prosesau gwirio mewnol yn gysylltiedig â cheisiadau ar lafar gan aelodau yn gofyn am wybodaeth am eu pensiwn. Ar gyfer rhai mathau o geisiadau, rhaid i'r galwr ateb tri chwestiwn diogelwch cyn y gellir diweddarw cofnod aelod.
15. Prosesau trosglwyddo allan sy'n cadw at ganllawiau sgamiau pensiwn 2021 y Rheoleiddiwr Pensiynau ac sy'n rhoi ystyriaeth i God Arfer Da'r Grŵp Diwydiant Sgamiau Pensiwn i ddiogelu aelodau'r cynllun.
16. Gweithredu rheolaethau priodol yn gysylltiedig â throsglwyddo arian rhwng rheolwyr buddsoddiadau drwy ddefnyddio Ceidwad y Gronfa a thrwy benodi rheolwyr pontio lle bo'n briodol, i leihau'r risg o dwyll neu weithgarwch cysylltiedig.
17. Sicrhau y cynhelir gwiriadau ac y sicheir cymeradwyaeth briodol ar gyfer yr holl daliadau sy'n mynd allan o gyfrif banc y Gronfa (ar sail llif gwaith sy'n adlewyrchu'r Rhestr Llofnodwyr Awdurdodedig) a bod gan swyddogion Rif Adnabod Defnyddiwr o fewn y system gyllid er mwyn helpu i atal twyll drwy sicrhau na chaiff taliadau eu cymeradwyo a'u talu y tu hwnt i derfynau awdurdodi'r unigolyn.
18. Gweithredu polisi Gwrthdaro Buddiannau'r Gronfa i gefnogi gwneud penderfyniadau cadarn a rheolaeth briodol ar y Gronfa, gan gynnwys lleihau'r risg o dwyll a gweithgarwch cysylltiedig.
19. Cadw at bolisi caffael y Cyngor mewn perthynas â phenodi cyflenwyr er mwyn lleihau'r risg o ddyfarnu contractau mewn modd amhriodol a honiadau posibl o lwgrwobrwy a chydgyllwynio.
20. Cynhelir adolygiadau archwilio blynyddol gan dîm archwilio mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin ar draws ystod o agweddau ar weithgarwch y Gronfa. Gall hyn chwarae rhan ataliol hanfodol o ran sicrhau bod systemau, gweithdrefnau a rheolaethau ar waith i atal a chanfod twyll ac arferion llwgr
21. Archwiliad allanol annibynnol blynyddol o gyfrifon ariannol y Gronfa fel mesur diogelwch pellach i atal a chanfod twyll ac arferion llwgr. Wrth lofnodi'r cyfrifon ariannol, mae cyfrifoldebau'r archwilydd yn cynnwys cael sicrwydd rhesymol bod datganiadau ariannol y Gronfa yn rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Ar ben hynny, mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn lofnodi llythyr cynrychiolaeth yn datgan ei fod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o ran dylunio,

gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaethau mewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

Canfod: Canfod ac ymchwilio i dwyll, ac adrodd amdano

Un o'r risgiau twyll mwyaf i'r Gronfa yw mynediad heb awdurdod i gyfrif banc y Gronfa. Dyma'r prif ddulliau o ganfod hynny a weithredir gan yr Awdurdod sy'n Gweinyddu:

- cysoni cyfrifon banc y Gronfa yn erbyn pob taliad sy'n dod i mewn ac yn mynd allan yn fisol er mwyn sicrhau bod pob trafodyn yn ôl y disgwyl
- gwiriadau wythnosol o gofnodion yn y cyfrif banc er mwyn canfod unrhyw daliadau amheus allan.

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn chwarae rhan bwysig wrth ganfod twyll, llwgrwobrwyo ac arferion llwgr. Mae adolygiadau o reolaethau system, gan gynnwys rheolaethau ariannol a phrofion twyll ac arferion llwgr penodol, wedi'u cynnwys yn ei gynllun strategol, a bydd yn cynnal gwiriadau ar hap. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnal ymarferion paru data helaeth er mwyn canfod twyll posibl drwy gymharu setiau data rhwng systemau ac oddi mewn iddynt, er mwyn canfod anghysondebau a allai fod yn arwydd o weithgarwch twyllodrus.

Yn ogystal â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol, mae nifer o systemau a mesurau rheoli gan reolwyr ar waith i ganfod twyll ac arferion llwgr, ond yn aml yr hyn sy'n helpu i ganfod achosion yw gweithwyr ac aelodau gwyliadwrus o'r cyhoedd. Bwriedir i Bolisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor annog a galluogi staff i godi eu pryderon.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i gyfrannu at y Fenter Twyll Genedlaethol, a gydlynir gan Archwilio Cymru (ac a gynhelir bob 2 flynedd) lle bydd setiau o ddata ar ystod o ddarpariaeth gwasanaeth yn cael eu cymharu â data Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyhoeddus eraill er mwyn canfod eithriadau, a allai gynnwys gweithgarwch twyllodrus.

Ar gyfer unrhyw benderfyniad i gyfeirio amheuaeth o dwyll neu arferion llwgr i sylw'r Heddlu er mwyn cynnal ymchwiliad troseddol, bydd angen cynnwys y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol neu, yn eu habsenoldeb, unrhyw un o'r swyddogion neu eu cynrychiolwyr enwebedig.

O dan ymagwedd dim goddefgarwch yr Awdurdod, bydd pob achos o Dwyll ac Arferion Llwgr yn cael ei drafod gyda'r Heddlu, gyda golwg ar fwrw ymlaen i erlyn. Yn dibynnu ar natur yr honiad, bydd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol yn cydweithio'n agos â'r Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyflogwr perthnasol i sicrhau bod ymchwiliad trylwyr yn cael ei gynnal i bob honiad, ac adroddiad yn cael ei lunio ar hynny.

Defnyddir Gweithdrefnau Disgyblu'r Awdurdod i hwyluso ymchwiliad trylwyr i unrhyw honiadau o ymddygiad amhriodol gan gyflogeion. Bydd achosion sy'n gysylltiedig ag Aelodau Etholedig yn cael eu cyfeirio i sylw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Bydd ymchwiliadau'n cael eu cynnal ar unwaith, ac yn cael eu cynnal gan staff â chymwysterau addas o fewn y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r tîm Twyll a Chydymffurfiaeth, sy'n ymwybodol o faterion Diogelu Data a Hawliau Dynol, yn enwedig Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2016. O dan y Ddeddf hon, cymhwysir amodau llym wrth arsylwi a chadw gwyliadwraeth, a bydd angen cymeradwyaeth benodol ar gyfer y rhain.

Gwybodaeth bellach yn gysylltiedig â Sgamiau Pensiwn

Un o'r risgiau mwyaf o dwyll posibl sy'n ymwneud ag aelodau'r cynllun yw ceisiadau gan aelodau i drosglwyddo eu buddion allan. Mae sgamiau pensiwn ledled y diwydiant ar gynydd ac mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn cymryd camau rheolaidd i ddiweddarau ei ganllawiau ar sgamiau. Mae'r canllawiau'n cynnwys opsiynau i gynlluniau pensiwn wrthod trosglwyddiad neu gyfeirio aelodau at MoneyHelper ar sail amgylchiadau penodol.

Mae'r Gronfa'n cymryd y risg hon a'i hymrwymiad i ddiogelu ei haelodau'n ddifrifol iawn. Polisi'r Gronfa yw sicrhau bod unrhyw ddiweddariadau i'w gweithdrefnau mewnol yn cael eu gwneud yn brydlon yn unol â gofynion y Rheoleiddiwr. Bwriedir i hyn leihau'r risg y bydd sgam bosibl yn llwyddiannus, gan ddiogelu'r aelod a'r Gronfa rhag y risg sy'n gysylltiedig â'r math hwn o dwyll.

Proses Adolygu

Cymeradwywyd y polisi Gwrth-dwyll ac Arferion Llwgr hwn gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed ym mis Mehefin 2025.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r strategaeth hon yn ôl yr angen yng ngoleuni newidiadau yn y dyfodol i'r CPLIL neu ddeddfwriaeth berthnasol arall. Bydd hefyd yn cael ei adolygu bob tair blynedd o leiaf a'i ddiweddarau yn ôl yr angen. Bydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed yn cymeradwyo diweddariadau a bydd y strategaeth ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi fel dogfen gyhoeddus ar ôl ei chymeradwyo.

Rhagor o wybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am unrhyw beth yn y Strategaeth hon neu sy'n gysylltiedig â hi, cysylltwch â:

Cronfa Bensiwn Dyfed, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP
Ffôn 01267 224 893